


System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru ([WNWRS](#))

Lawrlwytho Data Mehefin 2022

Diolch yn fawr iawn i bob Practis a ddilysodd ei ddata yn WNWRS cyn lawrlwytho ym mis Mehefin. Rydym yn falch o gyhoeddi bod 97% o bractisiau wedi defnyddio WNWRS o fewn y 3 mis diwethaf, gan ddilysu eu data a chyfrannu at well dealltwriaeth o'r Gweithlu Gofal Sylfaenol ledled Cymru.

Os hoffech weld rhai o ganlyniadau eich holl waith caled, ewch i [wefan Llywodraeth Cymru lle gallwch weld datganiadau data Gweithlu Practisiau Cyffredinol](#) sy'n cael eu diweddarau bob Chwarter.



Ffocws ar: Swyddi gwag

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, mae meddygon teulu sydd newydd gymhwyso yn aml yn chwilio am y camau nesaf yn eu gyrfaedd meddygol. Os yw eich practis meddyg teulu eisiau recriwtio unrhyw feddygon teulu, rhowch y swydd wag ar GPWales cyn gynted â phosibl. Mae'r wefan yn bwydo NHS Jobs, gan gyrraedd cynulleidfa eang heb orfod talu ceiniog! Os oes gennych unrhyw adborth am ddefnyddio GPWales neu os hoffech gael cymorth i helpu i lwytho hysbyseb, cysylltwch â'r tîm yn uniongyrchol ar support@gpwales.co.uk a byddant yn hapus i helpu.

Mewnbynwch a diwygiwch unrhyw swyddi gwag sydd gennych yn WNWRS hefyd. Mae'r adroddiadau a gynhyrchir gan WNWRS yn manylu ar nifer a mathau'r swyddi gwag ac yn cael eu defnyddio gan Fyrddau Iechyd ar gyfer Cynllunio'r Gweithlu ar draws Gofal Sylfaenol, felly mae'n hanfodol eu bod yn deall unrhyw faterion staffio gwirioneddol sydd gennych.

Cynhadledd Sefydliad Colegau Gwledig y Byd

(WONCA)/Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (RCGP)

Yn rhan o'r ymgyrch a gynhaliwyd gan AaGIC, mynychwyd Cynhadledd Sefydliad Colegau Gwledig y Byd (WONCA) a Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (RCGP) a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Nghanolfan Excel Llundain. Roedd yn wych cwrdd â chymaint o feddygon teulu o bob cwr o'r byd ac arddangos yr hyn sydd gan Gymru i'w gynnig. Cawsom lawer iawn o ddiddordeb gan Feddygon Teulu dan Hyfforddiant a meddygon teulu sy'n ymarfer a allai ddyuno symud i Gymru yn y dyfodol. Fe'u cyfeiriwyd at GPWales i ddangos yr amrywiaeth a'r mathau o swyddi gwag sydd ar gael ledled Cymru a sut y gallent wneud cais i weithio mewn Practisiau Meddygon Teulu yng Nghymru. Casglwyd manylion y Meddygon oedd â diddordeb a bydd y timau perthnasol o fewn GIG Cymru yn mynd ar drywydd y rhain.

Daliwch ati i roi eich swyddi gwag ar GPWales – mae'r system yn cysylltu â NHS Jobs, gan sicrhau y tynnir sylw nifer fawr o weithwyr proffesiynol sydd â diddordeb yng Nghymru a thu hwnt at yr hysbyseb.

Syniadau ac Awgrymiadau

Mae gan Wasanaethau Gofal Sylfaenol PCGC gyfeiriad e-bost ar wahân (nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk) ac [mae eu gwefan yn manylu ar yr holl Wasanaethau Meddygon Teulu y maent yn eu cynnig](#). Ymhlith gwasanaethau eraill, dylid anfon pob ymholiad y Rhestr Cyflawnwyr Meddygol (MPL), Archebion Deunydd Ysgrifennu, Ymholiadau Cofnodion Meddygol a Phrosesu Taliadau yn uniongyrchol atynt trwy'r cyfeiriad e-bost uchod. Mae ein cyfeiriadau e-bost ill dau yn dechrau gyda *NWSSP Primary Care*, felly mae'n bwysig eich bod yn dewis y cyfeiriad cywir i sicrhau bod eich ymholiad yn cael ei drin yn brydlon. Diolch ymlaen llaw am eich help gyda hyn.

Tystysgrif Nawdd

Os ydych chi'n bractis meddyg teulu sy'n bwriadu cyflogi meddyg teulu sydd newydd gymhwyso ac sydd angen Tystysgrif Nawdd i'w galluogi i barhau i weithio yn y DU, mae canllawiau newydd ar sut y gallwch wneud cais uniongyrchol i fod yn ddeiliad Trwydded. Cysylltwch â'n tîm Tystysgrif Nawdd a all eich cynghori ar y camau nesaf. Gallant eich tywys a'ch cefnogi drwy eich cais, ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych ar y broses.

NWSSPCertificateofsponsorship@wales.nhs.uk

